



DE | IMPACT



Dylanwad Gwobr Dug Caeredin
ar ieuenctid – Crynodeb o
ganlyniadau ymchwil ar
gyfer rhanddeiliaid a
dyfarnwyr lleol

Ymchwil gan Brifysgol
Northampton 2007-2009



The Pears Foundation



Rhagair

Sut bydd Gwobr Dug Caeredin yn darparu'r fath o dystiolaeth empirig a fynfir gan rai darpar bartneriaid a defnyddwyr rhaglenni'r DofE? Sut mae rhaglen weithgarol gyda phrofiad 50 mlynedd o alluogi ieuencid i wynebu heriau bywyd yn argyhoeddi'r amheuwyr a'r anghredinwyr? Nid ydyw'n dasg hawdd. Er hyn, mae'r Elusen wedi cychwyn ar strategaeth o gomisiynu ymchwil, ynghyd ag annog eraill i ymchwilio, ar effaith y DofE, gyda'r diben o gynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol.

Bu llawer o'n hymchwil yn canolbwyntio ar adrannau penodol iawn o'n gweithgarwch, ond mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddarn o waith ymchwil llawer ehangach, â gyflawnwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ymysg nifer fawr o gyfranogwyr a darparwyr y DofE ar hyd a lled y DU. Mae'r canlyniadau yn galonogol iawn, ac yn cefnogi'r dystiolaeth storïol y buom yn dibynnu arno hyd yn hyn. Mae llawer o'r argymhellion ar reoli hefyd yn lydan iawn ac er nad ydynt o syndod mawr, maent yn ddefnyddiol wrth ganolbwyntio ein sylw a sicrhau nad ydym yn mynd yn hunanfodlon. Rydym yn barod ac yn ymroddedig i wella'r hyn yr ydym yn ei wneud.

Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib o gwbl heb llawer iawn o ymdrech, dyfal barhad a chymorth hael. Rhaid diolch yn fawr i'r ymchwilwyr, ein ffrindiau yn y Pears Foundation ac wrth gwrs i bawb â ymatebodd ac â gyfrannodd. Diolch i chwi, mae gennym ni dystiolaeth gadarn o effaith sylweddol y DofE ar ieuencid a'r rhai sydd ynghlwm a'i ddarparu. Gobeithiaf yn fawr nad dim ond arf i gynorthwyo ein eiriolwyr lu fydd yr adroddiad hwn, ond hefyd y bydd yn sbardun i rai o'n amheuwyr ddod i gredu.

EUB Iarll Wessex KG, KCVO

Ymddiriedolwr, Gwobr Dug Caeredin



Diolchiadau

Hoffai'r DofE ddiolch i'r Pears Foundation am fod mor hael yn eu cefnogaeth o'r prosiect ymchwil hwn a gwaith y DofE i ysbrydoli, llywio a chynnal ieuencid wrth iddynt ddatblygu a gwireddu eu hamcanion personol.

Hoffai'r DofE hefyd ddiolch i bawb â fu'n cyfranni i'r ymchwil – Cyfarwyddwyr Rhanbarthol a Chenedlaethol y DofE a'r staff gweithredol, Rheolwyr ac Arweinwyr y DofE ar hyd a lled y DU a'r ieuencid sydd ynghlwm â'r rhaglen, ynghyd â phawb sydd wedi eu Gwobrwyo dros y 53 mlynedd diwethaf. Bu pob cyfraniad yn werthfawr gan lywio'r gwaith ymchwil hwn.

Mae Gwobr Dug Caeredin yn Elusen Gofrestredig rhif: 1072490, a rhif: SC038254 yn yr Alban, ac yn Gorfforaeth Siartur Brehinol rhif: RC000806.

Ychydig eiriau gan gefnogwr ein prosiect

Wedi cefnogi'r DofE ers blynyddoedd lawer, rydym yn falch ein bod yn medru ariannu'r prosiect ymchwil hwn. Mae'r ymchwil yn darparu sail tystiolaeth gref i ddangos buddion parhaol y DofE i'w gyfranogwyr. Gobeithiwn y bydd y casgliadau a'r argymhellion yn cynorthwyo'r mudiad pwysig hwn gyda'i strategaeth ar gyfer y dyfodol, gan arwain at brofiadau gwell fyth ar gyfer y chwarter miliwn person ifanc sydd yn ymateb yn flynyddol i'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar gynnig ganddo.

Trevor Pears

Cadeirydd Gweithredol y Pears Foundation

Cyflwyniad

Yn 2007, gyda chyllideb o'r Pears Foundation, cychwynnodd Gwobr Dug Caeredin (y DofE) ar waith ymchwil manwl ar effaith y DofE ar ieuencid. Nid oedd y DofE wedi gwneud unrhyw ymchwil systematig ar effaith y rhaglen dros 50 mlynedd o ddatblygu ieuencid, er hyn, fe wyddom o brofiad ac o dystiolaeth storïol bod yna fudd parhaol i ieuencid o ganlyniad i ennill Gwobr Dug Caeredin.

Gwyddom bod deiliaid y Wobr Aur yn llawer mwy tebygol o weld cynnydd yn eu gyrfaedd, o gael swyddi uwch a bod yna alw mawr amdanynt gan gyflogwyr. Gwyddom bod deiliaid y Wobr yn datblygu ymwybyddiaeth cymdeithasol, bod ganddynt hunan-hyder a hunan-barch, eu bod yn mwynhau gweithio mewn tîm, bod ganddynt ddealltwriaeth o anghenion eraill a'u bod yn fwy tebygol o gadw'n heini ac yn iach. Aethom ati i geisio canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ieuencid o'r fath hyn yn y ddogfen hon.

Diben gwneud yr ymchwil hyn oedd i wella'r DofE ar gyfer ieuencid yn y dyfodol; i ddylanwadu ar feddylfryd arweinwyr a gwneuthurwyr polisi er mwyn cynyddu'r canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein ieuencid o ddefnyddio rhaglenni'r DofE; ac i gyrchu cymorth ychwanegol ar gyfer y DofE, gan sicrhau bod mwy o ieuencid yn derbyn budd o gael Gwobr.

Gwnaed yr ymchwil gan Ganolfan Plant a Ieuencid Prifysgol Northampton rhwng Rhagfyr 2007 a Mehefin 2009. Paratowyd y ddogfen hon gan y DofE ac mae'n cynnwys crynodeb o'r casgliadau. Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael trwy gais i'n swyddfa gofrestrdedig yn: Gulliver House, Madeira Walk, WINDSOR, Berkshire SL4 1EU.

Yr Ymchwil

Bu'r prosiect ymchwil yn ystyried effaith y DofE ar ieuencid. Ceisiodd adnabod, dogfennu a dadansoddi canlyniadau cyfranogi ar raglenni DofE. Rhoddwyd gryn sylw i ddeall yr effaith ar y modd y mae ieuencid yn cymysgu gydag eraill o brofiad bywyd dra wahanol a datblygu model o ddatblygiad personol er mwyn cefnogi gwerthuso a monitro hirdymor y DofE.

Y broses

Yn dilyn proses tendr, gwnaeth Prifysgol Northampton ymgymryd â gwneud y gwaith ymchwil dros gyfnod o 18 mis, daeth y cyfnod i ben yn haf 2009. Darparwyd canllawiau ar gyfer yr ymchwil gan grŵp llywio yn cynnwys y Pears Foundation, y DofE a Phrifysgol Northampton. Dadansodwyd y data â gasglwyd a rhoddwyd y canlyniadau a'r argymhellion i'r DofE a'r Pears Foundation ym mis Gorffennaf 2009 er mwyn i'r DofE eu hystyried.

Y tîm ymchwil

Arweiniwyd y tîm ymchwil o Ganolfan Plant a Ieuencid Prifysgol Northampton gan Yr Athro Jackie Campbell. Bu ei thîm yn cynnwys Dr Victoria Bell, Sarah Cate Armstrong, Dr John Horton, Natasha Mansukhani, Yr Athro Hugh Matthews a'r Athro Andy Pilkington. Cefnogwyd a monitwyd y tîm gan grŵp llywio o Gyfarwyddwyr y DofE: Sarah Lindsell, Stephanie Price, Philip Treleven; a'r Swyddog Polisi Helen Longworth. Cynrychiolwyd y Pears Foundation gan y Dirprwy Gyfarwyddwraig, Amy Philip.

Methodoleg

Casglwyd y data ar gyfer yr astudiaeth mewn chwe modd:

1. Adolygiad desg o dystiolaeth presennol.

Cynhaliwyd arolwg llenyddol o ymchwil ar y DofE a rhaglenni tebyg.



2. Arolwg ar-lein o gyfranogwyr y DofE.

Cynhaliwyd dau arolwg ieuencid er mwyn tracio'r newidiadau yn eu hagweddau, eu perthynas ag eraill a'u hymwneud cymdeithasol dros gyfnod o amser. Ymatebodd 1,848 person ifanc i'r arolwg gan gynrychioli'r DU gyfan. O'r ymatebwyr hyn, roedd:

- 37% yn gweithio tuag at Wobr Efydd, 27% Wobr Arian a 39% Wobr Aur.
- 36% yn fechgyn, a 64% yn ferched.
- 93% mewn addysg llawn amser, o'r rhain roedd 35% yn mynychu ysgolion Cyfun, 15% yn mynychu ysgolion annibynnol, 13% yn mynychu ysgolion gramadeg ac roedd 9% mewn sefydliadau addysg uwch.
- 10% o gymunedau lleiafrifol ethnig, o gymharu â 14% o ieuencid sydd ynghlwm â'r DofE yn ei gyfanrwydd a 7.9% o boblogaeth y DU.
- gan 9% anabledd o gymharu â 4-5% o'r nifer o blant yr oedran hyn ym mhoblogaeth y DU.

3. Casglu data ansoddol gyda ieuencid.

Cynhaliwyd dros 100 cyfweiliad a 19 grŵp ffocws gyda ieuencid yng nghanol eu DofE ar hyd a lled y DU. Bu un criw o ieuencid hefyd yn recordio tystiolaeth fideo o'u profiadau gyda'r DofE.

4. Arolwg o Arweinwyr a Rheolwyr y DofE.

Derbyniwyd 383 holiadur yn ôl gan bartneriaid darpariaeth, gan gynnwys Arweinwyr a Rheolwyr, er mwyn casglu eu canfyddiadau o ffactorau positif a negyddol cyfranogi a'r ddarpariaeth yn y rhaglenni.

5. Casglu data ansoddol o bartneriaid darpariaeth a rhanddeiliaid.

Defnyddiwyd 54 cyfweiliad a grwpiau ffocws er mwyn ymchwilio'r canfyddiadau positif a negyddol o wneud a rhedeg rhaglenni DofE. Yn ychwanegol i'r partneriaid darpariaeth, roedd rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys cyfarwyddwyr corfforaethol, gweithredwyr awdurdodau lleol, arianwyr a gwleidyddion.

6. Cyfweiliadau hanes llafar gyda deiliaid y Wobr Aur.

Bu deiliaid y Wobr Aur o'r 50 mlynedd ddiwethaf yn rhannu tystiolaeth ar fuddion hiroesog cyfranogi yn y DofE. Bu yna 25 cyfweiliad, yn cyfweld 5 daliwr y Wobr o bob degawd.

Roedd canlyniadau'r astudiaeth yn eang iawn, yn ansoddol ac yn feintiol, fe'u harchwiliwyd mewn modd thematig gan ddefnyddio meddalwedd ymchwil arbenigol a thechnegau ystadegol.



Newidiwyd rhai o'r enwau yn y ddogfen hon er mwyn gwarchod anhybysrwydd.



Casgliadau allweddol

Mae'r canlyniadau a fanylir yn yr adroddiad llawn, y cyfrolau ystadegol a'r atodiadau cysylltiedig yn dangos bod rhaglenni DofE yn ddull llwyddiannus ac effeithiol o gynorthwyo datblygiad personol bobl ifanc.

Un o'r canlyniadau mwyaf dadlennol ydyw bod cyfranogi mewn rhaglen DofE a chyflawni Gwobr yn cael mwy o effaith ar y rhai sydd fwyaf angen rhaglen ymyrraeth ac sydd yn mynd i ennill fwyaf o safbwynt datblygiad personol.

Dangosir isod prif ganlyniadau'r adroddiad :

Agwedd tuag at brofiadau newydd

Crynodeb

Mae gwneud eu DofE yn darparu sgiliau ymarferol, cyfeillion a phrofiadau newydd ar gyfer ieuencid. Mae hefyd yn magu'r awch am antur a'r cyfle i adeiladu sgiliau a hyder efallai na fyddent yn datblygu fel arall.

Ystadegau

- Teimlodd 84% o'r bobl ifanc a 97% o'r Arweinwyr bod y DofE wedi darparu profiadau hollol newydd ar gyfer y cyfranogwyr.
- Teimlodd 81% o'r cyfranogwyr a 92% o'r Arweinwyr bod y DofE yn magu anturgarwch.
- Dywedodd 74% o'r bobl ifanc ei fod wedi galluogi iddynt brofi gweithgareddau nad oeddent wedi eu profi o'r blaen.
- Teimlodd 69% o'r bobl ifanc a 92% o'r Arweinwyr bod cyfranogwyr wedi datblygu diddordebau/hobïau newydd o ganlyniad i'w DofE.

Datblygiad personol

Crynodeb

Trwy'r DofE mae ieuencid yn adeiladu gwydnwch a hunan-barch, yn datblygu annibyniaeth a dyfalbarhad. Y rhai gyda'r man cychwyn isaf sydd fwyaf tebygol o dderbyn budd o gyfranogi mewn rhaglen DofE.

Ystadegau

- Nododd 81% o'r bobl ifanc a 92% o'r Arweinwyr bod yna gynnydd mewn cymhelliant.
- Dywedodd 80% o'r bobl ifanc a 93% o'r Arweinwyr bod y DofE yn rhoddi'r gallu i gyfranogwyr adlewyrchu ar eu dysgu ac ar eu cryfderau a'u gwendidau.
- Mae 79% o'r bobl ifanc a 94% o'r Arweinwyr yn credu bod cyfranogwyr yn datblygu annibyniaeth.
- Nododd 71% o'r bobl ifanc bod hunan-hyder wedi cynyddu.

Ymrwymiad Cymdeithasol

Crynodeb

Mynegodd y bobl ifanc eu bod wedi mwynhau gwirfoddoli yn eu cymunedau ond eu bod yn ei chael yn anodd datgan yn union sut yr oeddent yn cyfrannu yn adeiladol. Cawsant fudd o wybod bod ganddynt y gallu i wneud gwahaniaeth ar destun y maent yn teimlo yn gryf amdano, ac o ddysgu sut i weithio gyda phobl eraill

Ystadegau

- Dywedodd 90% o'r bobl ifanc bod gwneud y DofE wedi rhoddi cyfle iddynt helpu eraill
- Sylwodd 82% bod gwneud y DofE wedi creu awydd ynddynt i barhau gyda gweithgareddau gwirfoddoli/gwirfoddol.
- Mae 62% yn teimlo bod gwneud eu DofE wedi eu cynorthwyo i wneud gwahaniaeth adeiladol yn eu cymunedau.
- Mae 54% o'r bobl ifanc ond 82% o'r Arweinwyr yn meddwl bod cyfranogwyr yn dysgu i weithio gyda phobl o gefndiroedd tra gwahanol i'w hunain.

"Nid yw'r DofE erioed wedi fy ngadael i lawr, trwy gydol fy rhaglen roeddwn i'n gwybod bod yna gynhaliadau ar fy nghyfer. Gyda'r ymchwil hunan rwy'n meddwl bod gan y DofE gyfle i berffeithio'r hyn y mae yn ei wneud."
Paula, daliwr Gwobr Aur, Arweinydd DofE a Llysgennad y DofE

Lles corfforol a meddyliol	
<p>Crynodeb Nodwyd adeiladu hunan-hyder a chyfeillgarwch, ynghyd â chynyddu lefelau ffitrwydd trwy weithgarwch rheolaidd yn rhai o'r prif fuddion ar gyfer cyfranogwyr o wneud y DofE.</p>	<p>Ystadegau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae 93% o'r cyfranogwyr a 93% o'r Arweinwyr yn teimlo bod gwneud y DofE wedi datblygu sgiliau gweithio mewn tîm - Dywedodd 74% o'r bobl ifanc eu bod wedi datblygu hunan-barch. - Roedd 61% o'r bobl ifanc a 86% o'r Arweinwyr yn meddwl bod cyfranogwyr yn datblygu agwedd adeiladol ar y dyfodol. - Mae 64% yn teimlo eu bod yn well ar chwaraeon neu weithgarwch corfforol o ganlyniad i wneud y DofE. - Mae 61% yn teimlo bod gwneud y DofE wedi galluogi iddynt brofi camp neu weithgaredd corfforol newydd. - Mae 69% yn teimlo eu bod yn diflasu llai o ganlyniad i wneud y DofE.



Sgiliau a rhagolygon gwaith	
<p>Crynodeb Mae rhagolygon gwaith bobl ifanc yn gwella o ganlyniad i Wobrau Dug Caeredin. Mae Rhanddeiliaid a partneriaid darpariaeth yn meddwl bod hwn yn un o brif fuddion y rhaglen, yn enwedig y gallu i ddangos ymrwymiad a sgiliau trosglwyddadwy, ynghyd â'r gydnabyddiaeth o'r rhaglen gan nifer o gyflogwyr.</p>	<p>Statistics</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae 84% o'r bobl ifanc yn teimlo eu bod yn fwy cyfrifol, cytunodd 95% o'r Arweinwyr. - Adroddodd 80% o'r bobl ifanc a 93% o'r Arweinwyr ar y gallu i adlewyrchu ar ddysgu a'r cynnydd mewn hunanymwybyddiaeth. - Dywedodd 75% o'r bobl ifanc a 92% o'r Arweinwyr bod sgiliau trefnyddiaeth wedi eu datblygu. - Nodwyd bod y gallu i ddyfalbarhau â thasg tan iddo fod yn orffenedig yn ganlyniad adeiladol o wneud y DofE gan 84% o'r bobl ifanc a 92% o'r Arweinwyr. - Nododd 84% o'r bobl ifanc a 95% o'r Arweinwyr wellhad mewn sgiliau penderfynu.

Ymwneud ag Arweinwyr y DofE	
<p>Crynodeb Datganodd y bobl ifanc bod y gynhaliadaeth iddynt dderbyn gan eu Harweinydd yn un o'r pethau mwyaf pwysig yn y rhaglen. Hefyd mae yna nifer o fuddion i'w cael o fod yn Arweinydd DofE, yn enwedig y cyfle i ddatblygu perthynas bositif gyda phobl ifanc a'r balchder a deimlir pan fydd cyfranogwyr yn cyflawni eu hamcanion.</p>	<p>Ystadegau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae 91% o'r Arweinwyr yn teimlo bod eu hymwneud â'r DofE wedi rhoddi cyfleoedd iddynt helpu pobl eraill. - Mae 76% o'r bobl ifanc meddwl bod Arweinwyr DofE yn ysbrydoliaeth iddynt. - Mae 75% o'r Arweinwyr yn teimlo y gallai fod yna welliannau i ddarpariaeth rhaglenni DofE. - Mae 71% o'r Arweinwyr yn meddwl bod y DofE yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. - Mae 60% o'r Arweinwyr yn teimlo ei fod yn anodd rhedeg rhaglenni DofE oherwydd diffyg staff gwirfoddol.

“Ry'm ni'n dysgu'n gyson hefyd. Ac yn jyst adeiladu ar ein perthynas gyda'r plant hefyd sydd yn gwneud ein dosbarthiadau eraill yn llawer haws ... Rwy'n credu wedyn bod y plant yn dechrau edrych lan atom ni, dim fel math o ffigwr tad 'dwi ddim yn meddwl, ond, wel, efallai, fel delfryd ymddwyn. Felly wedyn, yn ein dosbarthiadau, mae'n troi yn swydd hawdda'r byd, wir Dduw.”
(Athro ac Arweinydd DofE)



Y DofE mewn ysgolion

Ar hyd a lled y DU mae yna symudiad at greu addysg bersonol, sydd wedi ei wirio tuag at anghenion disgyblion. Yn Lloegr, mae hyn yn ganolog i'r 'Pupil Guarantee' ac mae'n ran sylweddol o'r 'Curriculum for Excellence' yn yr Alban.


Yn yr Alban, mae egwyddorion dylunio cwricwlwm (Sialens a Mwynhad, Ehangder, Personoleiddio a Dewis, Cydlynid a Pherthnasedd) a'r pedwar gallu ar gyfer y 'Curriculum for Excellence' a amlinellir yn 'National Outcome 4' yn cael eu hadlewyrchu yn union yn y deg egwyddor canllawiol a'r pedwar adran o raglenni DofE. Mae'r DofE yn darparu fframwaith sydd yn cydnabod

gorchestion pobl ifanc, ond sydd hefyd yn darparu Gwobr rhyngwladol adnabyddus sydd yn uchel ei pharch ymysg cyflogwyr a sefydliadau addysg pellach ac addysg uwch. Yng Nghymru, mae dogfen 'Y Wlad Sy'n Dysgu' wedi amlinelli yr uchelgais o drawsffurfio darpariaeth addysg ar gyfer ieuenctid 14-19 mlwydd oed, gan gynnig llwybrau dysgu unigol symbyl ac ysgogol sydd yn adnabod cyflawniad mewn modd llawer mwy eang. Mae llwybrau dysgu yn cynnwys craidd o sgiliau a phrofiadau gan gynnwys cyfranogiad cymunedol, chwaraeon a phrofiadau diwylliannol, esthetig a chreadigol. Gall gyfranogi yn y DofE gynnig cyfleoedd ar gyfer y profiadau dysgu hyn.

Mae yna nifer o oblygiadau ar bolisiau ysgolion o ganlyniad i Ymchwil Impact:

Y 'Pupil Guarantee' Hyrwyddo cyfleoedd dysgu o safon uchel ar gyfer disgyblion ag ymddygiad anaddas ar gyfer yr ystafell ddosbarth, h.y. cwricwláu amgen.	Sut gall y DofE ychwanegu gwerth? <ul style="list-style-type: none"> - Defnyddir rhaglennu DofE yn aml ar gyfer denu unigolion yn ôl i'r system ddysgu, ac yn ôl yr adroddiadau maent yn ddull effeithiol o wneud hyn. Y flwyddyn ddiwethaf enillodd tua 150 person ifanc eu Gwobr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. - Mae'r dylanwad ar ddatblygiad personol yn fwy fwy ar gyfer y ieuenctid sydd angen cynhaliaeth fwyaf.
Cwricwlwm sydd yn caniatáu unigolion 14-19 mlwydd oed i ddilyn trywyddion gwahanol, gan gynnwys Prentisiaethau, Diplomau, yr Haen Ddysgu Sylfaenol a TGAU/lefel-A, a bydd gan pob disgybl 14-19 mlwydd oed gyfle i gyflawni gwasanaeth cymunedol erbyn Medi 2009.	<ul style="list-style-type: none"> - Mae rhaglenni DofE yn ychwanegu system sydd yn led adnabyddus gyda'r gallu i'w dargeddi at anghenion unigol y bobl ifanc, gan ehangu eu profiadau. - Mae yna reidrydd gwneud rhwng 3 a 18 mis o wirfoddoli ar raglenni DofE, ac maent yn cydnabod cyflawniad.
Y gallu i gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, gydag o leiaf 3 awr o chwaraeon o safon uchel bob wythnos, yn yr ysgol a thu hwnt iddo, erbyn mis Medi 2009, a'r cyfle i ddatblygu sgiliau mewn camp o'u dewis ac i wirfoddoli mewn modd sydd yn gysylltiedig â'r gamp honno. Mae yna ddyhead y bydd yna 5 awr o weithgareddau diwylliannol bob wythnos, gan weithio gydag amgueddfeydd a sefydliadau celfyddydol eraill, ac erbyn 2010 bydd gan bob disgybl gyfle i fynychu gweithgareddau adeiladol y tu hwnt i'r ysgol, clybiau diddordeb arbennig a chymorth astudio.	<ul style="list-style-type: none"> - Mae ieuenctid yn treulio tua 5 awr bob wythnos ar raglenni DofE, gan brofi ystod o weithgareddau diwylliannol, corfforol a chymunedol. - Mae rhaglenni DofE yn ehangu profiadau ar gyfer ieuenctid. Dywedodd 84% o'r bobl ifanc bod y DofE wedi darparu profiadau gwbl newydd ar eu cyfer a datblygodd 69% hobiau a diddordebau newydd.

<p>Y 'Curriculum for Excellence' Dysgwyr llwyddiannus</p>	<p>Beth ddyweda'r ymchwil?</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae rhaglenni DofE yn annog ieuenctid i reoli eu rhaglen dysgu eu hunain. Nododd 81% o'r cyfranogwyr wellhad yn eu cymhelliant a dywedodd 67% bod y DofE wedi dysgu iddynt sut i gyflawni eu hamcanion bywyd.
<p>Unigolion hyderus</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae gan rhaglenni DofE effaith aruthrol ar allbynnau datblygiad personol. Mae 79% o'r ieuenctid a 94% o'r Arweinwyr yn credu bod cyfranogwyr yn datblygu annibyniaeth a nododd 71% o'r bobl ifanc wellhad yn eu hunan-hyder.
<p>Cyfranwyr effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Er bod rhaglenni DofE yn seiliedig ar ddatblygiaeth yr unigolyn, mae gwaith tîm yn elfen ofynnol. Nododd 82% o'r cyfranogwyr bod y DofE wedi peri iddynt eisiau parhau gyda gweithgareddau gwirfoddoli/gwirfoddol ac mae 93% o'r cyfranogwyr a'r Arweinwyr yn teimlo bod gwneud y DofE yn datblygu sgiliau gweithio mewn tîm.
<p>Dinasyddion cyfrifol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Crëwyd y DofE er mwyn darparu fframwaith i ieuenctid dyfu yn ddinasyddion gweithgar ac i gydnabod eu gorchestion. Dywedodd 90% o'r ieuenctid bod gwneud y DofE wedi darparu cyfle iddynt helpu eraill ac mae 84% ohonynt yn teimlo eu bod wedi dod yn bobl mwy cyfrifol.



"Bwriad y cyfan i mi yw datblygu sgiliau newydd a chyfarfod â phobl newydd a wynebu heriau o'r fath na fydddech yn profi yn eich bywyd arferol."

Cyfranogydd Aur, Merch

Polisi cefnogi ieuenctid ag anghenion ychwanegol

“Mae cefnogaeth wedi ei dargedu at ieuenctid yn anelu i sicrhau bod anghenion ardddegwyr bregus yn cael eu hadnabod yn gynnar a'u cyflawni wrth i asiantaethau weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn ffyrdd â siapir gan farnau a phrofiadau'r ieuenctid eu hunain.”

DCSF

Astudiaeth achos

Mae uned gadarn iechyd meddwl yng Nghanolbarth Lloegr yn darparu rhaglenni DofE. Dywedodd y cydlynnydd: “Rwy'n credu ei fod yn eu gosod ar drywydd gwahanol... Mae llawer o'n bobl ifanc wedi bod yn dirywio ers tipyn a dyma pam eu bod yn gorffen eu taith mewn uned arbenigol fel hon. Rwy'n credu bod eu teuluoedd yn teimlo'n eithaf negyddol tuag atynt ond rwy'n credu bod y DofE yn rhoddi ychydig bach o obaith hefyd. Yn ddiweddar aeth un o'n dynion ifanc i dderbyn ei Wobr mewn seremoni allanol a daeth ei fam i'w weld. Roedd hi'n falch iawn o weld y llanc yn cyflawni rhywbeth fel hyn yn ei fywyd. Rwy'n credu bod hyn oherwydd ei fod yn Wobr y mae pob person ifanc yn medru ei wneud, nid rhywbeth sydd wedi ei addasu ar gyfer ein hieuenctid ni.”

Cefnogi ieuenctid ag anghenion ychwanegol

Mae angen cael mynediad i wasanaethau cyffredinol o safon uchel ar ieuenctid, er mwyn cynnal eu datblygiad yn gymdeithasol, yn addysgol, yn gorfforol ac yn emosiynol, Ond mae hefyd angen cymorth gwasanaethau wedi ei dargedu ar ieuenctid ag anghenion ychwanegol. Gall unrhyw berson ifanc ennill Gwobr Dug Caeredin, ac mae'r Wobr yn led adnabyddus, ond eto gellir targedi'r rhaglen at anghenion unigol y cyfranogwr. Mae'r DofE yn arf defnyddiol iawn ar gyfer ymyrraeth cynnar gyda ieuenctid bregus.

Nid ydyw addysg yn y brif ffrwd na gwasanaethau arbenigol yn unig yn medru darparu ar gyfer anghenion nifer o bobl ifanc. Nid ydyw eraill yn cyfarfod â'r meini prawf

ar gyfer derbyn gwasanaethau statudol, ac mae eraill eto sydd ddim yn derbyn yr ystod o gymorth ac her sydd angen arnynt. Mae gan bobl ifanc nifer o broblemau ac anghenion, gan gynnwys: ymddygiad aflonyddgar neu wrthgymdeithasol; gwrthdaro rhwng rhieni neu diffyg cynhaliath gan rieni; tor cyfraith neu'r risg o dor cyfraith; diffyg presenoldeb yn yr ysgol neu eithriad; cael eu bwlio, anghenion addysgol arbennig; anabledd; datgyweddiad o fyd addysg, hyfforddiant neu waith wedi 16; lefelau maeth gwael; anhwylder iechyd; cam-drin sylweddau; gorbryder neu iselder ysbryd; problemau tai; beichiogrwydd a magu plant. Dyma'r grŵp o ieuenctid y mae'r DofE yn cael yr effaith fwyaf arnynt. Mae gwasanaethau cefnogol wedi eu targedi yn ceisio darparu ar gyfer y ieuenctid hyn yng Nghymru a Lloegr.

Mae yna dri allbwn dymunol â gefnogir gan rhaglenni DofE:

Allbwn dymunol	Yr hyn y mae Ymchwil Impact wedi darganfod bod rhaglenni'r DofE yn datblygu
Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol ieuenctid, gan alluogi iddynt wneud newidiadau adeiladol, rheoli newid a chyfarwyddo risg.	<ul style="list-style-type: none"> - Mae 84% o ieuenctid a 95% o Arweinwyr yn meddwl bod rhaglenni DofE yn gwneud bobl ifanc yn fwy cyfrifol. - Adnabyddodd 81% o ieuenctid lefelau cymhelliant gwell
Codi uchelgeisiau pobl ifanc a'u cynorthwyo i deimlo yn bositif am ddysgu. Mae hyn yn cynnwys eu cynorthwyo wrth ymrwymo i wneud rhywbeth a pharhau'r ymrwymiad hynny, yng nghyd destun yr ystod mwy eang o gyfleoedd dysgu sydd nawr ar gael ar gyfer ieuenctid 14-19 mlwydd oed.	<ul style="list-style-type: none"> - Dywed 80% o gyfranogwyr a 93% o Arweinwyr bod rhaglenni DofE yn galluogi iddynt ddeall eu cryfderau a'u gwendidau yn well. - Dywedodd 76% o ieuenctid a 92% o Arweinwyr bod gwneud y DofE yn cynorthwyo cyfranogwyr i lynu at dasgau tan eu bod yn orffenedig. - Mae 61% o'r cyfranogwyr nawr yn teimlo yn fwy positif am eu dyfodol, sylwodd 86% o'r Arweinwyr ar hyn hefyd.
Cynorthwyo i fagu teuluoedd, cymunedau a chiriawia o gyfoedion positif.	<ul style="list-style-type: none"> - Dywedodd 75% o'r ieuenctid eu bod wedi gwneud cyfeillion newydd o ganlyniad i'r DofE. - Dywedodd 90% o'r ieuenctid eu bod wedi cael cyfle i helpu pobl o ganlyniad i'r DofE. - Mae 76% o gyfranogwyr yn meddwl bod eu harweinwyr yn ysbrydoliaeth iddynt.

Dinasyddiaeth a chyfranogiad

Mae pob aelod o gymdeithas yn ddinesydd o eiliad eu geni. Ond, wrth i ieuencid dyfu yn oedolion, maent yn datblygu hawliau a chyfrifoldebau newydd. Ffurfiwyd y DofE er mwyn darparu fframwaith i lywio a dathlu'r trosiant hyn. Yn debyg i addysg dinasyddiaeth, hanfod rhaglenni DofE ydyw dysgu i fod yn ddinesydd da nawr, meddu'r gallu i ddefnyddio'r dinasyddiaeth hynny a dysgu sut i fod yn ddinesydd effeithiol yn y dyfodol.

Mae dinasyddiaeth gweithgar, sydd yn destun dosbarth yn ysgolion Lloegr, yn ran o'r agenda cenedlaethol i wella cymysgu a chydlynid cymunedol, a gall ddod mewn amryw o ffurfiau. Mae'n golygu eich bod yn perthyn i'r cymdeithasau o'ch hamgylch ac yn ymarfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ddarperir gan y cymunedau hynny. Mae hefyd yn cynnwys y gweithgareddau cyfranogol, heb fod yn gyfan wleidyddol, sydd yn effeithio ar les cymunedau.

Un o gonglfeini y 'Curriculum for Excellence' yn yr Alban yw'r ffaith y dylid ddarparu profiadau sydd

yn cynorthwyo pob person ifanc i fod yn Ddinesydd Cyfrifol. Mae Dinasyddiaeth yn thema â blethir drwy pob profiad yn y 'cwrwclwm', gan gynnwys cyfleoedd i gyfranogi mewn cyfleoedd dysgu anffurfiol, fel rhaglenni DofE. Mae dinasyddiaeth nawr yn hawl a ddiogelir yn y profiadau cwrwclwaidd newydd e.e. "Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i brofi addysg gyffredinol eang... a datblygu gwybodaeth, deallusrwydd o gymdeithas, y byd a lle'r Alban yn y byd" Building the Curriculum 3: Llywodraeth yr Alban.

Yng Nghymru, mae Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Byd-eang yn datblygu sgiliau dinasyddol ieuencid i benderfynu a gweithredu er mwyn gwella safonau byw ein cymdeithas nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae rhaglenni DofE wedi chwarae rhan bwysig yng Nghynllun Strategol Adran Addysg Gogledd Iwerddon 2008/09, sydd yn blaenoriaethu 'paratoi pob dysgwyr ar gyfer bywyd' – gan ysgogi ac ymrymuso ein hieuencid i gyfrannu yn bositif i'n cymdeithas, nawr ac yn y dyfodol.

Polisi dinasyddiaeth
"Nid ceisio ffitio pawb i'r un patrwm, na chreu y dinesydd 'da' ydyw Addysg Dinasyddiaeth. Yn ei hanfod, mae'n ddull o alluogi dinasyddion i benderfynu dros ei hunain ac i gymeryd cyfrifoldeb am eu bywydau a'u cymunedau."
Citizenship Foundation

"Hanfod dinasyddiaeth ydyw ymarfer hawliau a chyfrifoldebau ar lefelau lleol, cenedlaethol a bydol; a gwneud penderfyniadau gwybodus, a gweithredu yn feddylgar a chyfrifol yn lleol ac yn fydol."
'Education for Citizenship in Scotland', Learning & Teaching Scotland 2002

Amlinellir isod rhai o'r priodoleddau a ddatblygir gan raglenni DofE sydd yn cyfranni tuag at fod yn ddinesydd gweithgar:

Priodoledd	Yr hyn y mae Ymchwil Impact wedi darganfod bod rhaglenni'r DofE yn datblygu
Y gallu i weithio gydag eraill a gwerthfawrogi amrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mae 73% o gyfranogwyr ac 89% o Arweinwyr yn teimlo bod pobl ifanc wedi cyfarfod ag eraill na fuasent wedi cyfarfod â hwy yn flaenorol, o ganlyniad i'r DofE. Mae 54% o'r bobl ifanc ac 82% o'r Arweinwyr yn meddwl bod cyfranogwyr yn dysgu i weithio gyda phobl o gefndiroedd tra wahanol i'w hunain.
Cyfranogi wrth greu penderfyniadau	<ul style="list-style-type: none"> Mae 84% o'r ieuencid a 95% o'r Arweinwyr yn teimlo ei fod yn datblygu sgiliau penderfynu. Mae 82% o'r ieuencid a 93% o'r Arweinwyr yn teimlo ei fod yn datblygu sgiliau arwain.
Y gallu i gyfathrebu, trafod syniadau a rhannu gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mae 93% o'r cyfranogwyr a 93% o'r Arweinwyr yn teimlo bod gwneud y DofE wedi datblygu sgiliau gweithio mewn tîm. Sylwodd 81% o'r ieuencid a 93% o'r Arweinwyr ar wellhad mewn sgiliau cyfathrebu.
Bod yn ymwybodol o broblemau y mae eu cymunedau yn eu hwynebu	<ul style="list-style-type: none"> Mae 82% o gyfranogwyr yn teimlo bod gwneud y DofE wedi creu awydd ynddynt i barhau gyda gweithgareddau gwirfoddoli/gwirfoddol yn y dyfodol.
Y gallu i weithio yn annibynnol wrth ganlyn anghenion personol a chymdeithasol.	<ul style="list-style-type: none"> Dyweddodd 90% o'r bobl ifanc bod gwneud y DofE wedi rhoddi cyfle iddynt helpu eraill Mae 62% yn teimlo bod gwneud eu DofE wedi eu cynorthwyo i wneud gwahaniaeth adeiladol yn eu cymunedau.

Astudiaeth achos
Mae Grant yn cydnabod bod adran gwirfoddoli ei DofE wedi ei gynorthwyo i fod yn fwy hyderus yn gyffredinol. Dewisodd weithio gyda phlant â Syndrom Down, gan sylweddoli'r budd a geir o wirfoddoli. Mae'n ymwybodol o gyfraniad ei waith ac ar hyn o bryd mae'n astudio ffisiotherapi yn y brifysgol. Mae'n gobeithio gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag anableddau megis Syndrom Down wedi iddo raddio. Cafodd ei brofiad o wirfoddoli tra'n gwneud ei DofE ddylanwad ar y penderfyniad hwn.

Cyflogadwyedd

Gellir ddiffinio cyflogadwyedd fel: *"...y gallu i ennill swydd, cadw'r swydd a chael swydd newydd os oes angen."* Institute for Employment Studies

"...y cyfuniad o ffactorau a phrosesau sydd yn galluogi i bobl symud tuag at neu ennill cyflogaeth, aros mewn cyflogaeth a gwneud cynnydd yn y gweithle." Llywodraeth yr Alban

Gan ystyried elfennau cyffredin y rhan fwyaf o ddiffiniadau, mae'r DofE yn diffinio cyflogadwyedd fel â ganlyn: *"Caffael ar a chyflwyno'r ymddygiad a'r sgiliau sydd yn gwella'r tebygolrwydd o ennill a chadw cyflogaeth."*

Astudiaeth achos

Enillodd Nathan ei Wobr DofE mewn ysgol ar gyfer ieuencid ag anawsterau emosynol ac ymddygiad. Dywedodd Cydlynnydd ei Ganolfan: "Mae wir wedi tanio diddordeb mewn addysg awyr agored ynddo nawr, ac mae eisiau dod yn ôl blwyddyn nesaf yn gynorthwy-ydd gyda chyfrifoldebau ychwanegol, yn gweithio gyda ieuencid... gallwch weld ei fod wedi derbyn cymhelliant a'i fod yn frwd am yr holl beth... gallwch weld ei fod o'r diwedd wedi dal ymlaen i ryw beth sydd yn golygu rhywbeth iddo, rhywbeth i'w ysgogi, a llwybr gyrfa posib iddo."

Cyflogadwyedd

Cyflogadwyedd yw gallu'r unigolyn i ennill a chadw swydd. Mae pobl ifanc yn defnyddio eu Gwobr Dug Caeredin ar eu CV neu eu datganiadau personol ar geisiadau i brifysgolion a swyddi. Mae hefyd yn destun iddynt drafod mewn cyfweiliadau, gan gynnig esiamplau cadarn o alluoedd megis arweinyddiaeth ac

adeiladu tîm, ymrwymiad, dyfalbarhad a sgiliau trefniadol.

Er enghraifft, mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Sgiliau sy'n gweithio i Gymru' yn cynnwys yr uchelgais y bydd gan bawb y sgiliau angenrheidiol i ennill a chadw swydd. Mae Datblygaeth sgiliau arweinyddiaeth a rheoli yn hanfodol i wireddu uchelgais Cymru'n Un o 'gyflogaeth lawn' yng Nghymru.

Ynghyd â deall byd busnes a sgiliau rhifedd/TG, mae Comisiwn y DU ar Gyflogaeth a Sgiliau a'r CBI yn diffinio'r sgiliau a'r agweddau sy'n creu person cyflogadwy fel â ganlyn:

Agwedd neu sgil	Yr hyn y mae Ymchwil Impact wedi darganfod bod rhaglenni'r DofE yn datblygu
Hunanreolaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mae 84% o'r ieuencid yn teimlo eu bod wedi tyfu yn unigolion mwy cyfrifol, cytunodd 95% o'r Arweinwyr. Sylwodd 84% o'r ieuencid a 92% o'r arweinwyr bod gwydnwch y cyfranogwyr wedi gwella. Adroddodd 80% o'r ieuencid a 93% o'r Arweinwyr ar y gallu i adlewyrchu ar eu dysgu a'r twf mewn hunanymwybyddiaeth. Sylwodd 84% o'r ieuencid a 92% o'r Arweinwyr ar y gallu i ddyfalbarhau â thasg tan iddo fod yn orffenedig. Datgelodd 75% o'r ieuencid a 92% o'r Arweinwyr y gallu i drefnu.
Datrys problemau	<ul style="list-style-type: none"> Yn ôl 75% o'r ieuencid a 87% o'r Arweinwyr, mae sgiliau datrys problemau yn gwella. Sylwodd 84% o'r ieuencid a 95% o'r Arweinwyr ar wellhad mewn sgiliau penderfynu.
Gweithio mewn tîm a chyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> Mae 93% o gyfranogwyr ac arweinwyr yn teimlo bod gwneud y DofE wedi datblygu sgiliau gweithio tîm. Sylwodd 54% o'r ieuencid ac 82% o'r Arweinwyr ar gynydd mewn parch at eraill. Cafodd y gallu i gyfrannu mewn trafodaeth ei adnabod gan 81% o'r ieuencid a 93% o'r Arweinwyr. Mae yna ymwybyddiaeth o gyd-ddibyniaeth ar eraill, yn ôl 82% o'r Arweinwyr a 54% o'r ieuencid. Sylwebodd 81% o'r bobl ifanc a 93% o'r Arweinwyr ar wellhad mewn sgiliau cyfathrebu.
Ymagwedd bositif at waith	<ul style="list-style-type: none"> Mae 71% o'r ieuencid yn teimlo bod ganddynt fwy o hunan-hyder. Mae 79% o'r ieuencid a 94% o'r Arweinwyr yn credu bod cyfranogwyr y DofE yn datblygu annibyniaeth. Mae 81% o'r ieuencid yn teimlo bod gwneud eu DofE wedi peri iddynt fod yn fwy anturiaethus, a cytunodd 92% o'r arweinwyr gyda hyn. Dywedodd 81% o'r ieuencid a 92% o'r Arweinwyr bod cymhelliant cyfranogwyr yn cynyddu.

Iechyd a lles

Mae bod yn iach a chynyddu lles yn allbwn allweddol ar gyfer bobl ifanc ar draws i holl bolisiâu Llywodraeth y DU. Mae rhaglenni'r DofE yn datblygu ehangder o allbynnau sydd

yn effeithio'n bositif ar bob agwedd o iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, meddwl a chymdeithasol.

Maent hefyd yn cael dylanwad sylweddol ar gallu ieuencid i reoli risg, newid ac adfyd.

Priodoledd	Yr hyn y mae Ymchwil Impact wedi darganfod bod rhaglenni'r DofE yn datblygu
Lles corfforol <ul style="list-style-type: none"> - Medru gosod amcanion a rheoli iechyd corfforol personol - Medru ymwneud â gweithgareddau corfforol yn reolaidd 	<ul style="list-style-type: none"> - Mae 64% o'r ieuencid yn teimlo eu bod yn well ar wneud chwaraeon a gweithgareddau corfforol o ganlyniad i wneud eu DofE. - Mae 61% o gyfranogwyr yn teimlo bod gwneud eu DofE wedi galluogi iddynt brofi camp neu weithgaredd corfforol newydd.
Lles meddwl a chorfforol <ul style="list-style-type: none"> - Yn ymwybodol o deimladau ac yn medru eu cyfleu - Medru cyrchu cymorth - Hunanhyder - Annibyniaeth personol 	<ul style="list-style-type: none"> - Roedd 61% o'r bobl ifanc a 86% o'r Arweinwyr yn meddwl bod cyfranogwyr yn datblygu agwedd bositif ar y dyfodol. - Mae 79% o'r bobl ifanc a 94% o'r Arweinwyr yn credu bod cyfranogwyr yn datblygu annibyniaeth. - Mae 76% o'r bobl ifanc meddwl bod Arweinwyr DofE yn ysbrydoliaeth iddynt.
Lles cymdeithasol <ul style="list-style-type: none"> - Medru ymarfer hawliau a chyfrifoldebau - Medru cyfranni i gymunedau - Chwarae rhan mewn creu newid adeiladol oddi fewn i gymunedau - Medru gweithio gyda a chreu cyfeillgarwch â gwahanol fathau o bobl 	<ul style="list-style-type: none"> - Mae 75% o'r ieuencid wedi gwneud rhai cyfeillion newydd trwy eu rhaglen DofE. - Dywedodd 90% o'r bobl ifanc bod gwneud y DofE wedi rhoddi cyfle iddynt helpu eraill
Gwydnwch a hyblygrwydd <ul style="list-style-type: none"> - Yn medru gwneud dewisiadau realistig a deallus, gosod amcanion hylaw a chynllunio trosiannau. - Yn medru adlewyrchu ar eu haddysg ac ymateb i unrhyw newidiadau angenrheidiol. 	<ul style="list-style-type: none"> - Mae 69% yn teimlo bod gwneud y DofE yn golygu eu bod yn diflasu llai. - Nododd 81% o'r bobl ifanc a 92% o'r Arweinwyr bod yna gynnydd mewn cymhelliant ymysg cyfranogwyr. - Sylwodd 84% o'r ieuencid a 92% o'r Arweinwyr bod gwydnwch y cyfranogwyr wedi gwella.



Polisi iechyd a lles

“Mae dysgu ar iechyd a lles yn sicrhau bod plant a ieuencid yn datblygu'r wybodaeth a'r deallusrwydd, y sgiliau, y galluoedd a'r priodoleddau angenrheidiol ar gyfer lles meddwl, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol hirdymor.”

Curriculum for Excellence: iechyd a lles; profiadau ac allbynnau

“Mae'r llywodraeth wedi gosod blaenoriaeth newydd: i fod y wlad fawr gyntaf i wyrdroi'r duedd tua gordewder yn y boblogaeth gan sicrhau bod pob unigolyn yn medru cyrraedd a chynnal pwysau iachus.”

Healthy Weight, Healthy Lives: A Cross-Government Strategy for England, 2008

Astudiaeth achos

Enillodd Alison ei Gwobr Aur yn 2005, ac heddiw mae'n gwirfoddoli yn Arweinydd DofE. Dywedodd am ddylanwad y DofE ar ei hechyd a'i lles: “Roeddwn yn dawel iawn pan ddechreuais fy DofE. Rwyf i nawr yn fwy hyderus o ganlyniad. Dydw i ddim yn credu y byddwn i wedi setlo ym mhrifysgol o gwbl petaswn i heb wneud fy DofE, roeddwn i'n wael iawn am wneud ffrindiau. Pan ddechreuais i yn 14, roeddwn i'n eithaf tew a ddim yn heini o gwbl, doedd gen i ddim diddordeb bod yn yr awyr agored. Roeddwn yn hoff iawn o lyfrau a'r sofffa. Nawr 'dwi'n gwneud mwy o chwaraeon, yn mynd i'r gampfa, pethau fel yna.”

Polisi gweithgareddau adeiladol

“Erbyn 2018 bydd pob person ifanc yn mwynhau blynyddoedd eu harddegau yn hapus, yn iach ac yn ddiogel, gan eu paratoi ar gyfer bywyd oedolyn a'u galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.”

Aiming High for Young People

“Mae'r yna gytgord rhwng gweledigaeth y Llywodraeth o wasanaeth cymorth wedi ei dargedu ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf, â'r DofE, ac fe adlewyrchir hyn yng nghyfeiriad ein datblygiad ni dros y blynyddoedd diwethaf.”

Peter Cloke, Cyfarwyddwr Plant a Dysgwyr, Swyddfa'r Llywodraeth Y De Orllewin

Astudiaeth achos

Nid oedd dwy ysgol dan adain AALI yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr yn medru darparu'r rhaglenni o weithgareddau adeiladol â fyddai'n fwyaf addas ar gyfer eu disgyblion. Sefydlodd yr ysgol arbennig lleol, ar gyfer plant ag Anawsterau Dysgu Dirifol a Niferus, Anhwylderau Sbectrwm Awstistig ac ymddygiad heriol cysylltiedig, glwb wedi ysgol ar gyfer ieuencid 14-19 mlwydd oed. Sefydlodd yr ysgol arbennig DofE yn yr ysgol uwchradd hefyd. Mae ieuencid o'r ysgol uwchradd yn parhau i wirfoddoli yn y clwb wedi ysgol. Creodd y gweithgareddau adeiladol, gydag achrediad y DofE, gyfleoedd i ieuencid o gymunedau a galluoedd gwahanol medru cyflawni a llwyddo gyda'i gilydd. Roedd y buddion ar gyfer y ddau griw yn aruthrol, gan ddangos bod pob person ifanc yn medru cael mynediad i weithgareddau adeiladol a chyflawni Gwobr Dug Caeredin.

Gweithgareddau adeiladol

Mae strategaeth deng mlynedd y Llywodraeth ar gyfer gweithgareddau adeiladol yn bwriadu 'trawsffurfio cyfleoedd, gweithgareddau a gwasanaethau cymorth amser hamdden ar gyfer ieuencid yn Lloegr'. Mae'n ofynnol yn y gyfraith i bob awdurdod lleol yn Lloegr hyrwyddo'r ddarpariaeth ar gyfer ieuencid yn eu hardal.

Gwnaed llawer o waith yn Yr Alban ar gryfhau partneriaethau ysgolion a gwaith ieuencid. Mae'r ddogfen 'Bridging The Gap' â gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Learning Teaching Scotland yn dangos y modd y gall addysg anffurfiol chwarae rhan llawer cryfach mewn ysgolion, a'r modd y gall hyn gynorthwyo ysgolion i ddal ar orchestion ieuencid.

Ymestyn Hawliau yw polisi blaengar Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuencid yng Nghymru. Mae'n cydnabod bod y cyfrifoldeb

dros gynorthwyo ieuencid trwy eu datblygiad yn gorffwys gydag ystod eang o sefydliadau. Gall darparu rhaglenni DofE gynorthwyo'r awdurdodau lleol i gyflawni'r strategaeth hon a chydabod ymrwymiad ieuencid i'r gweithgareddau maent yn eu gwneud. Mae darpariaeth ar gyfer ieuencid yn ofyniad statudol ar y Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon o ganlyniad i'r 'Education and Library Board Order 1972'. Nid ydyw'r modd y bydd yr Awdurdod Sgiliau Addysg yn gweithredu yn glir wrth i hwn gael ei ysgrifennu. Er hyn, mae darparu rhaglenni DofE yn sicr yn mynd i'r afael ag amcanion nifer o bolisiau a deddfau fel y 'NI Children and Young People – Our Pledge: A ten year Strategy for Children and Young People 2006-16', y 'NI Education (Other Skills) Order August 2007' a'r 'Department of Education's Strategic Plan 2008/09' sydd yn blaenoriaethu 'paratoi pob dysgwr ar gyfer bywyd.'

<p>Yn ôl strategaeth 'Aiming High for Young People', mae gweithgareddau adeiladol:</p> <p>Yn atyniadol i bobl ifanc ac yn gynhwysol</p>	<p>Yr hyn y mae Ymchwil Impact wedi darganfod bod rhaglenni'r DofE yn datblygu</p>
<p>Ddim yn trin ardegwyr fel 'problem' ac yn delio ag anghenion ieuencid yn eu cyfanrwydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Y rheswm fwyaf poblogaidd a roddir dros gyfranogiad ieuencid yn y DofE ydyw ei fod yn hwyl. - Mae'r gydnabyddiaeth o gyflawniad â geir yn y DofE yn sicrhau bod y rhai sydd yn wynebu'r anawsterau mwyaf yn debygol o dderbyn yr effaith cryfaf ar eu datblygiad personol.
<p>Yn cynnwys ieuencid, a'u rhieni, wrth gynllunio a darparu</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae ieuencid yn cynllunio eu rhaglenni eu hunain. Roedd 79% o'r bobl ifanc a 94% o'r oedolion yn teimlo bod cyfranogwyr yn dod yn fwy annibynnol.
<p>Yn darparu goruchwyliaeth addas mewn awyrgylch diogel â gefnogir gan adnoddau digonol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cefnogir ieuencid gan Arweinwyr sydd yn dod yn bwysig yn eu bywydau. Dywedodd 76% o'r ieuencid bod eu harweinwyr DofE yn ysbrydoliaeth iddynt.
<p>Yn annog cyfranogiad hir ei barhad ac yn dal gafael ar ieuencid wrth iddynt dyfu</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Nodwyd bod y gallu i ddyfalbarhau â thasg tan iddo fod yn orffenedig yn ganlyniad adeiladol o wneud y DofE gan 84% o'r bobl ifanc a 92% o'r Arweinwyr.
<p>Yn greadigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Teimlodd 81% o'r cyfranogwyr a 92% o'r Arweinwyr bod y DofE yn magu anturgarwch. - Dywedodd 74% o'r bobl ifanc ei fod wedi galluogi iddynt brofi gweithgareddau nad oeddent wedi eu profi o'r blaen.
<p>Yn cefnogi gweithwyr ieuencid gan reoli yn dda yn strategol ac yn weithredol a chynnyg mynediad hawdd</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae 71% o Arweinwyr y DofE yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth gan y sefydliad sydd yn darparu'r rhaglenni.